Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Heol y Gadeirlan / 24 Cathedral Road
Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Dylan Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Cyfeirnod:** 3187A2022

**Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 2022

Annwyl Dylan

# Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Yr hyn a wnaethom

Cynhaliwyd asesiad o gynnydd y Cyngor wrth ymateb i ofynion allweddol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhwng mis Ebrill a mis Awst 2022. Casglwyd ein tystiolaeth drwy adolygu dogfennau a chynnal cyfweliadau. Gwnaethom hefyd ddefnyddio canfyddiadau perthnasol o'n gwaith parhaus a diweddar arall yn y Cyngor. Roedd ein gwaith yn edrych ar y trefniadau yr oedd y Cyngor yn eu rhoi ar waith wrth ymateb i'r Ddeddf. Nid asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau hyn oedd y gwaith.

## Yr hyn ddaethom o hyd iddo

**Mae'r Cyngor wedi drafftio ei hunanasesiad blynyddol cyntaf a bydd yn ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn yn ystod hydref 2022. Nid yw'r Cyngor wedi cadarnhau eto ei gynlluniau ar gyfer cwblhau asesiad perfformiad y panel allanol, ond mae'n credu y bydd yn digwydd yn ail hanner tymor y Cyngor hwn**

- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau Cymru gwblhau hunanasesiad blynyddol o'u perfformiad. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi drafftio ei hunanasesiad

blynyddol cyntaf yn edrych ar berfformiad 2021-22. Mae wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2022. Pan fydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi adolygu'r hunanasesiad i gytuno ar y cynnwys neu gynnig gwelliannau, bydd y Pwyllgor wedyn yn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn ystod hydref 2022.

- Mae gan hunanasesiad y Cyngor dri phrif gategori - rheoli perfformiad; defnyddio adnoddau; a rheoli risg. Mae gan bob un o'r tri chategori hyn dri is-gategori:

| | |
|---|---|
| Rheoli Perfformiad | Adrodd ar Berfformiad |
| | Gwasanaeth Cwsmeriaid |
| | Llywodraethu a Chydymffurfio |
| Defnyddio Adnoddau | Datblygu'r Gweithlu a Rheoli Pobl |
| | Darparu Adnoddau |
| | Cydweithio ac Integreiddio |
| Rheoli Risg | Adroddiadau rheoleiddio allanol/mewnbwn gan gymheiriaid |
| | Archwilio Mewnol |
| | Diogelu Corfforaethol |

- Er mwyn cwblhau'r hunanasesiad cyffredinol, gwnaeth pob un o naw gwasanaeth y Cyngor gwblhau hunanasesiad.
    - Yn gyntaf, rhoddwyd sgôr am eu perfformiad o’i gymharu â’r naw is-gategori gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt o ardderchog, da, digonol, ac anfoddhaol.
    - Yn ail, rhoddwyd sgôr am eu rhagolygon ar gyfer gwella yn y dyfodol gan ddefnyddio ail raddfa pedwar pwynt o ardderchog, da, digonol, ac anfoddhaol.
- Ar gyfer pob gwasanaeth, plotiodd y Cyngor ganlyniadau ei hunanasesiad yn weledol o’u cymharu â’i obaith o wella yn y dyfodol mewn matrics dau-wrth-ddau.
- Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad perfformiad gan banel allanol unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin, olynol. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad ffurfiol ynglŷn â phryd y bydd asesiad y panel allanol yn digwydd. Mae'r asesiad yn debygol o fod yn ystod ail hanner tymor y Cyngor hwn. Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn bwriadu creu tîm o swyddogion o fewn yr adnoddau presennol er mwyn casglu gwybodaeth a chefnogi'r Panel cyn ac yn ystod yr asesiad.

## Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn drafftio ei Strategaeth Cyfranogi, ond nid yw'r gwaith wedi dechrau ar ddiwygio'r Cynllun Deisebau eto

- Mae Cynllun Gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) y Cyngor yn nodi'r tasgau y mae'n bwriadu eu cyflawni i greu Strategaeth Cyfranogi a diwygio ei

Gynllun Deisebau. Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglenni a Pherfformiad y Cyngor sy'n arwain yr elfen yma o'r Ddeddf i'r Cyngor.

- Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn drafftio ei Strategaeth Cyfranogi.
- Mae Cynllun Gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) y Cyngor yn dweud nad yw'r gwaith o ailystyried a diwygio'r Cynllun Deisebau wedi dechrau eto. Dywedodd y Cyngor wrthym y bydd angen cefnogaeth allanol i gwblhau'r gwaith hwn oherwydd problemau capasiti oherwydd swyddi gwag staff. Mae wedi gofyn am gymorth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn bwriadu ailsefydlu ei Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori. Bydd rhaglen waith y Bwrdd yn cymryd rhan yn unol ag Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## Mae'r Cyngor wedi penodi pedwar aelod lleyg ac wyth aelod etholedig i'w Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd ac mae'n bwriadu cynnal hunanasesiad ansoddol o berfformiad y Pwyllgor yn 2022-23

- Dan y trefniadau newydd, mae 12 aelod ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor sy'n cynnwys wyth aelod etholedig a phedwar aelod lleyg.
- Ym mis Ebrill 2022, cymeradwyodd y Cyngor benodiad tri aelod lleyg newydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cymeradwyodd hefyd barhad yr aelod lleyg presennol am ail dymor o bum mlynedd, gan ddod â chyfanswm yr aelodau lleyg i bedwar.
- Cymeradwyodd y Cyngor newidiadau i'r Cyfansoddiad a Chylch Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â'r Ddeddf.
- Mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant penodol i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2022. Hwylusodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hyfforddiant gan edrych ar swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau'r Pwyllgor.
- Dywedodd y Cyngor ei fod yn bwriadu cynnal hunanasesiad ansoddol yn ystod 2022-23, gan gasglu adborth aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r rheiny sy'n gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor. Amcanion y Cyngor ar gyfer yr asesiad hwn yw deall sut mae'r Pwyllgor yn perfformio a nodi meysydd ar gyfer datblygu a hyfforddiant i aelodau yn y dyfodol.

## Cyfarfu Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CJC) am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2022. Nod y chwe chyngor cyfansoddol yw trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol y CJC. Ymhlith y buddion mae symleiddio llywodraethu ac osgoi dyblygu rhwng y ddau gorff

- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau ar 17 Mawrth 2021 i greu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig ledled Cymru. Sefydlodd y cyrff cyfansoddol Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (NWCJC) ar 1 Ebrill 2021. Daeth swyddogaethau cychwynnol y NWCJC i rym ar 30 Mehefin 2022. Mae Cyngor Gwynedd, fel

Awdurdod Cynnal Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB), yn arwain ar brosiect i ymateb i'r drefn newydd hon, 'Cydweithio Prif Gynghorau'.

- Y partneriaid sy'n rhan o'r pwyllgor hwn yw:
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir y Fflint
    - Cyngor Gwynedd
    - Cyngor Sir Ynys Môn
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
    - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cytunodd y chwe chyngor cyfansoddol y dylai'r NWCJC barhau â'r cyfeiriad a sefydlwyd gan yr NWEAB. Cyflwynodd y cyrff cyfansoddol adroddiad ym mis Ionawr 2022 i'w Cabinetau/Byrddau Gweithredol yn argymell trosglwyddo swyddogaethau'r NWEAB drwy gytundeb dirprwyo i is-bwyllgor grymusol y NWCJC. Mae'r model arfaethedig yn gweld Is-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd yn adrodd i'r NWCJC. Cynigiwyd y newid hwn i gyflawni model llywodraethu symlach ac osgoi unrhyw ddyblygu rhwng y ddau gorff.
- Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn aros ar ganllawiau a rheoliadau ar faterion megis craffu, pwerau benthyg, a statws TAW i ddatblygu gwaith y NWCJC ymhellach.

## Nid oes gan y Cyngor gynlluniau ar unwaith i ddefnyddio Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol fel y nodir yn y Ddeddf, ond mae wedi nodi'r angen i hyfforddi swyddogion a rhoi arweiniad

- Dywedodd y Cyngor wrthym nad oedd ganddo gynlluniau ar unwaith i ddefnyddio Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol fel y nodir yn y Ddeddf.
- Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y Cyngor yn dweud y bydd yn aros i weld y Rheoliadau cyn ystyried ymhellach ond efallai y bydd angen penderfynu ar y camau sy'n ofynnol i ymgorffori'r Pŵer fel rhan o fusnes gweithredol yn ôl yr arfer.
- Mae'r Cyngor wedi nodi'r angen i ddarparu hyfforddiant ac arweiniad i'w swyddogion ar y Pŵer, ond nid yw wedi cynllunio'r gwaith yma hyd yn hyn.

## Casgliad

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei drefniadau i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae gwaith pellach i'w wneud gan gynnwys:

- cadarnhau a gweithredu ei gynlluniau ar gyfer cwblhau asesiad perfformiad y panel allanol
- cwblhau'r broses o baratoi a mabwysiadu Strategaeth Cyfranogi
- diwygio ei Gynllun Deisebau
- darparu hyfforddiant ac arweiniad i swyddogion ar Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol

- ar lefel rhanbarthol Gogledd Cymru, cadarnhau'r trefniadau craffu, pwerau benthyg a statws TAW y Cyd-bwyllgor Corfforedig

Yn gywir

Alan Hughes

Arweinydd Archwilio